

Cynllun Ardal

2023-2028



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board





Contents

1. Cyflwyniad	4	12. Cyllid Cyfalaf	32
2. Asesiad Poblogaeth Cwm Taf Morgannwg	8	13. Tirwedd Polisi Llywodraeth Cymru	36
3. Grwpiau Blaenoriaeth	8	13.1 Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng	37
4. Datblygu'r Cynllun Rhanbarthol: Cyfres Hac-a-thonau 2022	9	13.2 Datblygu Clwstwr Carlam	38
5. Cyd-gynhyrchu Cyd-gynhyrchu	12	14. Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus	42
6. Cyfathrebu	15	15. Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig	43
7. Llywodraethiant	16	16. Gweithlu	44
8. Plant a Phobl ifanc	18	17. Trefniadau Cyllid a Gydgasglwyd	45
8.1 Gweithredu Fframwaith NEST	19	18. Cynlluniau Gweithredu	46
8.2 Rhaglen Lywodraethu: Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal	19	1. Oedolion a phobl hŷn – Cyflawniadau a Chanlyniadau	47
8.3 Rhaglen waith	19	2. Anableddau Dysgu – Cyflawniadau a Chanlyniadau	50
9. Ein dull integredig o ateb anghenion gofal a chefnogaeth pobl hŷn	21	3. Iechyd meddwl a llesiant – Cyflawniadau a Chanlyniadau	52
10. Dementia	24	4. Gofalwyr – Cyflawniadau a Chanlyniadau	54
11. Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)	30	5. Plant a phobl ifanc – Cyflawniadau a Chanlyniadau	56
11.1 Beth yw nod yr RIF?	30	6. Cyflawniadau a Chanlyniadau Awtistiaeth	58
11.2 Pa wasanaethau fydd y RIF yn eu cefnogi?	30		
11.3 Beth yw'r modelau gofal?	31		

1. Cyflwyniad

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Cwm Taf Morgannwg yn un o saith RPB yng Nghymru.

Rydyn ni'n dod â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau at ei gilydd â gweithwyr proffesiynol o'r GIG, gofal cymdeithasol, addysg, tai, y trydydd sector a'r sector preifat.

Drwy gydweithio, ein nod yw gwella llesiant y boblogaeth, a sut y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Amlinellir y ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau ardal yn adran 1A O Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'). Rhaid i gynlluniau ardal gael eu paratoi ar y cyd rhwng byrddau ieuchyd lleol a'r awdurdodau lleol sydd yn ardal y bwrdd ieuchyd lleol, dan gyfarwyddyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rhaid iddynt adlewyrchu egwyddorion sylfaenol Deddf 2014: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, a chyd-gynhyrchu.

Mae'r Cynllun Rhanbarthol hwn yn amlinellu sut y bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn ymateb i ganfyddiadau [Asesiad Anghenion y Boblogaeth](#) Cwm Taf Morgannwg i lywio pa wasanaethau ieuchyd, gofal cymdeithasol a llesiant sydd eu hangen yn ein cymunedau.

Fel RPB, rydyn ni eisiau sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu dylanwadu a'u ffurfio gan bobl sy'n byw a gweithio yn ein cymunedau. er mwyn casglu profiadau, mewnwelediadau a syniadau, bu i ni arwain cyfres o weithgareddau ymgysylltu a elwid yn hac-a-thonau dros gyfnod o gan niwrnod. Roedd hyn yn golygu dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd â phobl â phrofiadau byw i edrych ar heriau a chreu atebion.

Rhoddodd yr hac-a-thonau gyfle i bobl gydweithio gyda chyfansoddwyr caneuon, artistiaid, beirdd a storiwyr i ddod â'u profiadau, eu teimladau a'u syniadau ar gyfer y dyfodol yn fyw.

Daliwyd adborth o'r digwyddiadau hyn yn ein Hasesiad Anghenion y Boblogaeth. Roedd hi'n bwysig proffilio'r profiadau hyn yn eang, felly fe gynhalion ni gyfres o ddigwyddiadau o'r enw 'Clywch ein Lleisiau'. Fe wnaeth y digwyddiadau gyflwyno caneuon a straeon grymus a gyfansoddwyd gan ein cymunedau er mwyn ysbrydoli newid cadarnhaol.

Gwylwch ffilm am ein perfformiad Clywch Ein Lleisiau isod.





Er mwyn darparu dyfodol gwell i bobl Rhondda Cynon Taf (RCT), Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddeall y boblogaeth sy'n byw yn yr ardal nawr a'r boblogaeth sy'n debygol o fyw yma yn y dyfodol.


Mae hyn yn cynnwys deall cyd-destun ehangach bywydau pobl, yr hyn sy'n bwysig i gymunedau, y pethau sy'n effeithio ar eu lles a'u hangen unigol am ofal a chymorth. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi gwasanaethau i gynllunio a chydweithio'n fwy effeithiol, gan gynnwys comisiynu atebion arloesol a modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

Bu cwblhau'r Asesiad Poblogaeth yn 2021 yn garreg filltir arwyddocaol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Roedd yr Asesiad Poblogaeth yn cynnwys ystod o ddata meintiol ac ansoddol sydd wedi ein helpu i ddeall yn well yr hyn sy'n bwysig i'n trigolion a'n cymunedau. Credwn fod yr Asesiad yn rhoi llwyfan cryfach i ni y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'n gilydd.

Yn ogystal â'r asesiad poblogaeth, mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid lunio Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) rhanbarthol sy'n asesu digonolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth a sefydlogrwydd gwasanaethau rheoleiddiedig (a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru). Rhaid cyflawni'r gweithgaredd hwn fel y nodir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021.

Gallwch weld yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer CTM [yma](#).



* Gofyniad Statudol dan Ddeddf 2014

Y Cynllun Ardal Rhanbarthol hwn yw ein hymateb i'r hyn a ddywedodd Asesiad Poblogaeth CTM ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad wrthym.

Mae'n gynllun pum mlynedd, a baratowyd yn unol â chanllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn amlinellu ystod a lefel y gwasanaethau sydd i'w darparu mewn ymateb i'r anghenion am ofal a chymorth a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth ac adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Er mai cynllun pum mlynedd yw hwn, bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fonitro cynnydd. Pan fo'n briodol, caiff y cynllun ei ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud. Bydd hyn yn grymuso ac yn galluogi pobl yng Nghwm Taf Morgannwg sydd angen gofal a chymorth i fyw'r bywydau gorau y gallant a chyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

2. Asesiad Poblogaeth Cwm Taf Morgannwg

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhoddodd

Rhoddodd y Ddeddf 'ddyletswydd' ar Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a phartneriaid (gan gynnwys y sector gwirfoddol) i feddwl am 'lesiant' cyffredinol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'r gofalwyr sy'n eu helpu.

Fel rhan o'r Ddeddf, roedd hi'n ofynnol i gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ein poblogaeth ac anghenion gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, yn ogystal ag ystod a lefel y gwasanaethau ataliol.

Gellir gweld crynodeb o'r negeseuon allweddol [yma](#).

Dadansoddwyd yr wybodaeth hon i amlygu anghenion, galw a negeseuon allweddol a nodwyd ac fe'i defnyddir i helpu i greu darlun o anghenion gofal a chymorth ar gyfer pobl Cwm Taf Morgannwg.

Gallwn ddefnyddio'r hyn a ddysgwyr gennym yn yr Asesiad hwn i feddwl am sut rydym ni'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth ac, yn bwysicach fyth, sut y gallwn gydweithio'n well i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n gwneud y gorau dros unigolion a'n cymunedau.

3. Grwpiau Blaenoriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni edrych ar anghenion gofal a chymorth y grwpiau canlynol o bobl yn benodol:

- Iechyd ac anableddau corfforol
- Anableddau dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Colli'r synhwyrau
- Gofalwyr di-dâl
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- + Sefydliadau Diogel



4. Datblygu'r Cynllun Rhanbarthol: Cyfres Hac-a-thonau 2022

Fel rhan o'n cynllun ymgysylltu blynyddol ar gyfer gweithgareddau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu hac-a-thon rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022 i helpu i lywio datblygiad y Cynllun Ardal Rhanbarthol.

Fel y crybwyllwyd yn ein cyflwyniad, cafodd hac-a-thonau eu treialu'n wreiddiol fel offerynnau ymgysylltu arloesol yn 2021, fel rhan o'r Fframwaith 100 Diwrnod o Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i greu fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Mae ein math ni o hac-a-thon yn dod â defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, a phenderfynwyr allweddol yng Nghwm Taf Morgannwg at ei gilydd. Mae'r digwyddiadau'n darparu lle ystyrlon i gychwyn ar broses o gyd-greu a chyddylunio dechreuwyr sgwrs creadigol ble gellir cynnal sgysiau gweithredol a strategol hollbwysig pellach. Mae hyn yn helpu i ysbrydoli a llywio gwelliannau a newidiadau cadarnhaol i wasanaethau, ac mae'n sail i'r penodau ynglŷn â'r cynllun ardal a welir isod.

Mae 400 o bobl, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol, wedi bwydo'n uniongyrchol i'n Cynllun Ardal Rhanbarthol.

Ceir mwy o fanylion ynghylch beth oedd cynnwys pob digwyddiad isod:

23.09.2022	Hac-a-thon Cyd-gynhyrchu Cyd-gynhyrchu Hac-a-thon i gyd-ddylunio diffiniad rhanbarthol cyd-gynhyrchu a datblygu sail i siarter gyd-gynhyrchu, a fydd maes o law'n addysgu strategaeth gyd-gynhyrchu ranbarthol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg.
07.10.2022	Anableddau dysgu Hac-a-thon yn rhoi sylw i ystod o astudiaethau achos y tynnwyd sylw atynt dros y 12 mis diwethaf o fewn gwasanaethau anableddau dysgu, i gyd-ddylunio atebion posib ar gyfer gwella, a datblygu strategaethau rhanbarthol ehangach.
14.10.2022	Iechyd Meddwl a Llesiant Hac-a-thon yn archwilio profiadau unigol defnyddwyr gwasanaethau a'r gweithlu, am ystyr iechyd meddwl a llesiant iddyn nhw, a beth sydd angen ei wneud i wella iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth ar draws y rhanbarth i'r dyfodol.
28.10.2022	Plant a phobl ifanc Hac-a-thon yn archwilio blaenoriaethau dinasyddion a amlygwyd i blant a phobl ifanc drwy gydol y Fframwaith 100 Dydd o Ymgysylltu yn 2021. Yn yr hac-a-thon hwn, roedd gan bobl ifanc gyfle i ddod ynghyd â gweithwyr proffesiynol i rannu'u profiadau dan bob n o'r blaenoriaethau a datblygu atebion creadigol ar gyfer eu trafod i'r dyfodol, Bydd y gwaith sy'n deillio o'r hac-a-thon hwn hefyd yn bwydo i mewn i'r gwaith rhanbarthol o gwmpas Fframwaith NEST ac adolygiad y Datganiad Bwriad Rhanbarthol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
04.11.2022	Pobl Hŷn a Dementia Hac-a-thon â dau brif ffocws: unigrwydd ac ynysu, a dementia. Daeth yr hac-a-thon hwn ag aelodau hŷn ein cymunedau ynghyd â gwasanaethau pobl hŷn, cyfeillio a dementia i drafod beth yw hi i fod yn rhywun hŷn yn ein cymunedau a pha heriau a wynebier ganddynt yn feunyddiol.

11.11.2022	Hygyrchedd Gwasanaethau Hac-a-thon a dynnodd ynghyd bobl ag ystod o anghenion hygyrchedd i edrych ar y rhwystrau a'r heriau a wynebant o ran ymgysylltu â'r gwasanaethau cefnogi sydd eu hangen arnynt a chael mynediad iddynt. Daeth yr hac-a-thon hwn â defnyddwyr y gwasanaethau sy'n profi colli synhwyrâu, anableddau corfforol a phroblemau symudedd, ynghyd â phobl sydd ag anawsterau cyfathrebu i rannu'u profiadau a helpu i gyd-dylunio atebion i helpu i wella hygyrchedd ein gwasanaethau.
18.11.2022	Gofalwyr di-dâl Hac-a-thon a ddaeth â gofalwyr di-dâl o bob math o gefndir ynghyd i roi llwyfan iddynt gael eu gweld, eu clywed a'u deall. Canolbwyntiodd yr hac-a-thon ar sawl her allweddol a wynebwr gan ofalwyr di-dâl gan gynnwys mynediad i ofal seibiant, cefnogaeth iechyd meddwl a llesiant emosiynol i ofalwyr di-dâl, ac asesiadau gofalwyr.

Cefnogwyd yr hac-a-thonau hyn gan bedwar digwyddiad pellach mewn lleoliadau cymunedol:

07.09.2022	Llunio cartwnau gyda phobl ag anableddau dysgu i gynrychioli'u hannibyniaeth a'u hystod eang o sgiliau a diddordebau.
12.10.2022	Taith gerdded lesiant a gweithgareddau creadigol i archwilio unigrwydd ac ynysu, a manteision cefnogaeth i lesiant.
02.11.2022	Dawns de i bobl hŷn gan edrych ar dair thema – unigrwydd ac ynysrwydd, cefnogaeth a gwasanaethau cymunedol, a gofal iechyd a dod allan o'r ysbyty
23.11.2022	Ysgrifennu stori gyda gofalwyr i gynrychioli'u profiadau ac un newid mawr yr hoffent ei weld mewn gwasanaethau.

5. Cyd-gynhyrchu Cyd-gynhyrchu

Cyd-gynhyrchu yw un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldeb i ymgorffori arferion cyd-gynhyrchiol yn eu gwaith.

Yn ei hafod, mae cyd-gynhyrchu'n ail-gydbwyso strwythurau grym i greu llwyfan cyfartal, dwyochrog ac ymddiriedol ble gall pobl ddod o hyd i atebion gyda'i gilydd. Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gallai hyn olygu rhywun â phrofiad byw a gweithiwr proffesiynol yn cydweithio i wella gwasanaeth.

Fel RPB, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd cyd-gynhyrchu, a'r gwerth y gall yr arfer ei gynnig i ddatblygiad a chynaliadwydd gwasanaethau.

Serch hynny, gall cyd-gynhyrchu gymryd amser, ac mae angen yr amgylchedd cywir iddo weithio'n effeithiol. Mae'n bwysig ein bod ni'n creu'r dull cywir o gyd-gynhyrchu, sy'n rhoi lle ar gyfer cydweithredu cadarnhaol ac ystyrlon rhwng darparwyr a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau.

Yn 2019, bu i ni gomisiynu prosiect o'r enw 'Mae Ein Llais yn Cyfri' i amlygu rhwystrau a gwneud argymhellion ar gyfer arfer gorau o ran cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu ar draws Cwm Taf Morgannwg.



Ar ôl cynnal ymchwil ar draws y rhanbarth, dyma'r argymhellion a gynhyrchwyd gan Mae Ein Llais yn Cyfri:

- ✓ Datblygu perchnogaeth ranbarthol a dealltwriaeth o gyd-gynhyrchu trwy gyd-greu diffiniadau ranbarthol ar gyfer termau perthnasol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu.
- ✓ Datblygu datganiad o fwriad ranbarthol ar gyfer cyd-gynhyrchu (neu siarter cyd-gynhyrchu) a strategaeth cyd-gynhyrchu ranbarthol i helpu i ddangos a gwreiddio cyd-gynhyrchu ar draws gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghwm Taf Morgannwg.
- ✓ Creu cymuned ymarfer ranbarthol â'r swyddogaeth o oruchwyllo a gwerthuso gweithredu arferion cyd-gynhyrchu ranbarthol, fel y manylir arno yn y datganiad o fwriad a'r strategaeth cyd-gynhyrchu. Dylai'r gymuned hon o arferion hefyd fod yn lle ar gyfer rhannu dysg ac arfer da, datblygol, drwy greu canllawiau a phecynnau cymorth, yn ogystal â dathlu llwyddiant i ysbrydoli eraill.
- ✓ Datblygu pecyn cymorth i'r gweithlu a dinasyddion i helpu i hyfforddi ac ymgorffori gwerthoedd cyd-gynhyrchu ar gyfer darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.
- ✓ Parhau i ddatblygu Llwybr Cyfranogiad Rhanbarthol sy'n datblygu mecanwaith er mwyn rhoi llais a werthfawrogi i bobl, ac i'r llais hwnnw gryfhau gwaith prosiectau a gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u darparu.
- ✓ Datblygu meini prawf cyd-gynhyrchu ranbarthol ar gyfer comisiynu / ariannu prosiectau a gwasanaethau yn y dyfodol, i'w cynnwys fel rhan o'r broses ymgeisio am arian. Datblygu proses ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a gwneud penderfyniadau ar y cyd ar adolygu a phenderfynu ar lwyddiant tendrau darparwyr gwasanaethau lleol a ranbarthol a cheisiadau am gyllid, a fesurir yn erbyn blaenoriaethau dinasyddion a blaenoriaethau strategol a nodwyd.

Fel rhan o'n dyhead i gydnabod yr argymhellion hyn a chyd-gynhyrchu strategaeth cyd-gynhyrchu ranbarthol, lansiwyd cyfres o waith o'r enw 'Cyd-gynhyrchu Cyd-gynhyrchu'.

Nod y gwaith hwn yw dod ag ystod eang o bobl ynghyd, gan gynnwys llunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau a phobl â phrofiadau byw, i gyd-gynllunio ein taith gyd-gynhyrchu i'r dyfodol fel rhanbarth ac i sefydlu'r gwerthoedd craidd a'r egwyddorion sylfaenol yr hoffem eu gweld yn cael eu gwreiddio drwy ymgysylltu ystyrlon a buddiol i drawsnewid a gwella ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein gwaith cyd-gynhyrchu cyd-gynhyrchu, a lansiwyd fel rhan o'n cyfres Hac-a-thon 2022/2023, wedi caniatáu i ni gyd-greu diffiniad rhanbarthol newydd ar gyfer y term. Gan gynnwys dros 150 o unigolion yn rhan o'r broses, ein diffiniad newydd yw man cychwyn dyfodol cyson a chynaliadwy ble gellir defnyddio ymgysylltiad ystyrlon darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr ein gwasanaethau i greu newid cadarnhaol sydd o fudd i bawb.

Dyma ein diffiniad newydd:

'Mae cyd-gynhyrchu'n trawsnewid mewn dull cadarnhaol y berthynas rhwng y rhai sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau ar draws Cwm Taf Morgannwg, trwy werthfawrogi profiadau byw a rhannu grym i ddylanwadu ar, a gwreiddio, newid ystyrlon.'

Wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf datblygiad ein strategaeth, bydd ein tîm yn cyd-ddadansoddi grŵp peilot o aelodau amrywiol o bob rhan o'r rhanbarth a'r sector statudol a'r trydydd sector yn ceisio cyd-ddylunio siarter cyd-gynhyrchu a datganiad o fwriad, y gellir asesu arferion cyd-gynhyrchu rhanbarthol yn ei erbyn. Bydd hyn yn ei dro yn creu lle a strwythur i wireddu argymhelliad tri, wrth ddatblygu cymuned ymarfer rhanbarthol ar gyfer cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu.

Dros y 12 mis diwethaf, cymerwyd camau hefyd i gyflawni argymhelliad pedwar, drwy ddatblygu ein rhaglen hyfforddi flaenllaw 'Yn Hyn Gyda'n Gilydd'.

Mae'r rhaglen pedwar modiwl hon yn helpu unigolion i ddeall pam fod cynnwys dinasyddion yn hanfodol er mwyn ychwanegu gwerth at ein gwaith yn lleol ac yn rhanbarthol, a galluogi'r gweithlu a dinasyddion i hwyluso a chymryd rhan mewn sgysiaau ystyrlon sy'n meithrin perthynas, yn ysbrydoli gweithredu ac yn sicrhau gweithredu'r ddolen adborth a chyfathrebu bwysig.

Bu adborth gan fynychwyr yn gadarnhaol ac mae astudiaethau achos yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddangos yr effaith y cafodd yr hyfforddiant hwn ar drawsnewid gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Mae tair carfan arall o hyfforddiant Yn Hyn Gyda'n Gilydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod 2023/2024 a bwriedir datblygu rhaglen ddilynol sy'n edrych yn fwy penodol ar gyd-gynhyrchu ac yn creu lle i dreialu technegau ymgysylltu arloesol.

Er bod y corff hwn o waith yn esblygol ei natur er mwyn ymgorffori cyd-gynhyrchu, mae'r chwe argymhelliad a amlinellwyd ar hyn o bryd yn rhoi fframwaith y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion arno. Drwy adolygu blynyddol, gallwn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn parhau i fod yn gyfredol, ac wrth i'r argymhellion gael eu cwblhau, byddwn yn ceisio ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith ar gyd-gynhyrchu drwy nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu a threalu offer a thechnegau ymgysylltu arloesol newydd a'r rhai a gyd-gynlluniwyd yn rhanbarthol, fel ein hac-a-thonau. Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod llais y dinesydd yn parhau'n ganolog i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws Cwm Taf Morgannwg a'n bod ni'n agored i ddilyn trywydd o hyrwyddo ein gwaith cyd-gynhyrchu a sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn cael eu gwerthfawrogi'n ystyrlon.

6. Cyfathrebu

Mae ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ond yn effeithiol os yw'n cael ei gefnogi gan gyfathrebu hygrych a chyson.

Rydym wedi defnyddio ein gwefan fel prif lwyfan cyfathrebu i rannu diweddariadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau a straeon sy'n ysbrydoli. Mae tactegau cyfathrebu wedi cynnwys datblygu ffilmiau hygrych i arddangos y gwaith a wnaed, postiadau cyfryngau cymdeithasol sy'n dangos y gwaith ac sy'n amlygu pwysigrwydd cymryd rhan, a defnyddio ein llwyfan rheoli rhanddeiliaid i gadw mewn cyswllt â'r bobl sy'n mynychu ein digwyddiadau.

Yn enwedig, mae'r gwaith yn ennill mwy o sylw, a chafodd y caneuon a'r darnau llafar a grëwyd yn ystod ein hac-a-thonau le yng Ngŵyl Lleswyl ym mis Chwefror 2023. Mae Lleswyl yn ŵyl gynhwysol, rad ac am ddim, i bobl â salwch cronig ac fe'i darlledwyd ledled Cymru.

Rhwng mis Medi a Mawrth, wrth ymgymryd â gweithgareddau i fwydo i'n Cynllun Ardal Rhanbarthol, cynyddodd ein cyfradd ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol gan 11.1% (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd). Dengys hyn fod gan fwy o bobl ddiddordeb yn y gwaith a wnawn a'u bod yn gweithredu i gymryd rhan.

Adlewyrchir hyn hefyd ar ein gwefan, gyda'n tudalennau hafan wedi cynyddu 10.5%, ac ymgysylltiad defnyddwyr cyffredinol yn cynyddu 3%.

Cawsom hefyd gynydd o 75% yn nifer y defnyddwyr newydd (a gefnogir gan hysbysebion y talwyd amdanynt wrth gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ar Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan).



11%

**Ymgysylltu â
chyfryngau
cymdeithasol**



10.5%

**Gweld
tudalennau
hafan y wefan**



75%

**Defnyddwyr
newydd**

7. Llywodraethiant

Fel y nodwyd yn ein cyflwyniad, sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg* i gyflawni'r bwriad strategol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn benodol Rhan 9, i wella canlyniadau a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.


Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r corff arweiniol allweddol sy'n goruchwyllo'r holl waith integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n cynrychioli'n ffurfiol fuddiannau'r awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd a'i randdeiliaid allweddol. Mae'r RPB yn gyfrifol am fonitro cynnydd a chyflawniad parhaus rhaglenni gwaith integredig ar draws y rhanbarth.

Amcanion statudol yr RPB yw:

- Ymateb i'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth a gynhelir yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf;
- Gweithredu cynlluniau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol dan y bwrdd, y mae rheidrwydd ar yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd hynny i'w paratoi a'u cyhoeddi dan adran 14A o'r Ddeddf;
- Sicrhau fod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u grymoedd dan adran 167 o'r Ddeddf; a
- Hybu sefydlu cyllid a gydgasglwyd ble bo'n addas



* Sylwer bod pwrpas y bwrdd hefyd wedi'i nodi yn Rhan 2 y Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol).



Aeddfedrwydd, llywodraethiant a diwylliant y bartneriaeth

Mae Cynllunio a Llywodraethu bwriadus yn sicrhau fod trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn addas i'w pwrpas ac yn cefnogi'r RPB i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac effeithiol.

Gwella'n barhaus

Gall trefniadau isadeiledd sicrhau fod trefniadau partneriaeth yn parhau'n gryf, ac y gall partneriaid gyflawni ar eu dyletswyddau partneriaeth (dan Ran 2/9 o'r Ddeddf Llesiant)

Parhau i yrru ymlaen

Arloesi a gwella, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar draws yr RPB (ond heb eu cyfyngu i'r [Gronfa Integreiddio Ranbarthol](#) i gefnogi datblygu a mabwysiadu modelau cynaliadwy newydd o ran iechyd a llesiant.

Datblygu a gweithredu rhaglen ddatblygu partneriaeth a seilir ar fframwaith matrices aeddfedrwydd hunan-asesu a fydd yn cynnig asesiad ansoddol a meintiol o gynnydd a chyfleoedd ar gyfer diwylliant a dealltwriaeth well am bartneriaeth, gyda ffocws ar gyd-gynhyrchu.

8. Plant a Phobl Ifanc

Datblygwyd Datganiad Bwriad ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 'Strategaeth ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd' ranbarthol ar y cyd pan sefydlwyd rhanbarth newydd Cwm Taf Morgannwg.

O fewn Cwm Taf Morgannwg, mae Strategaethau Comisiynu Lleoliadau ar waith, a Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad (MPS) sy'n ffurfio ac addysgu trefniadau comisiynu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (CLA), gan amlygu'r galw presennol, rhagweld angen i'r dyfodol ar gyfer maethu, gofal preswyl a gofal byw â chymorth i CLA. Er gwaethaf bodolaeth ystod o ddarparwyr maethu a phreswyl preifat fframwaith ac an-fframwaith, amlygodd Adroddiad Ciplun Swyddi Gwag Rhanbarthol Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) ym mis Gorffennaf 2020, nad oedd digon o ofal preswyl addas pan fo angen, ar gyfer y CLA hynny â'r anghenion mwyaf cymhleth. Hefyd, nid oes darpariaeth lleoliadau ar yr un diwrnod ar gael pan fo angen ymyrraeth mewn argyfwng ac ar fyr rybudd.

Mae timau gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth hefyd yn gweld nifer o bobl ifanc unigryw ble nad yw lleoliadau gofal preswyl presennol yn gallu diwallu'u hanghenion iechyd meddwl ac emosiynol cymhleth. Ni ellir lleoli'r plant hyn ochr yn ochr â phlant eraill, sy'n golygu bod angen lleoliadau unigol, oherwydd risg, ymddygiad neu freguster. Ni all modelau presennol ddarparu'r pecynnau gofal arbenigol, wedi'u teilwra i'r unigolion, sydd eu hangen i gefnogi eu hanghenion emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth, ac mewn rhai achosion lle nad yw ymyriadau CAMHS o bosibl gyda'r mwyaf buddiol, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar eu cyfer.

Mae peidio â mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn arwain at lawer o'r deilliannau canlynol:

- Ymddygiad hynod heriol; trais corfforol, dinistrio eiddo
- Methiant mewn lleoliadau lluosog, diffyg sefydlogrwydd a pharhad gofal
- Amlygu symptomau iechyd meddwl, sy'n effeithio'n sylweddol ar les emosiynol, gyda diagnosis neu hebdo
- Ymddygiad rhywiol niweidiol (SHB) a pheryglon
- Trawma
- Lefelau uchel o ymddygiadau mentro lluosog; hunan-niweidio, synio am hunanladdiad, dianc, camddefnyddio sylweddau neu ymddygiad troseddol.

Mae mynd i'r afael â'r bwlch hwn ar gyfer y cohort hwn o blant a phobl ifanc, sydd angen gwasanaethau a lleoliadau hynod arbenigol, yn ffocws ar gyfer datblygu presennol ac i'r dyfodol yn y rhanbarth.

8.1 Gweithredu Fframwaith NEST

Nawr, yn fwy nag erioed. mae cefnogi iechyd emosiynol a llesiant pobl yn hanfodol er mwyn cadw cymdeithas yn iach, ac atal cynyddu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Yn sgil effeithiau pandemig Covid-19 sylweddolir hyn ymhellach wrth i nifer cynyddol o bobl o bob oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc, gael eu hamlygu fel rhai y mae angen cefnogaeth iechyd emosiynol a llesiant arnynt.

I gael mwy o wybodaeth ynghylch cyflwyno Cynllun Gweithredu Fframwaith NEST Rhanbarthol.

I gael mwy o wybodaeth ynghylch cyflwyno Cynllun Gweithredu Fframwaith NEST Rhanbarthol – cliciwch [yma](#).

8.2 Rhaglen Lywodraethu: dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Roedd y rhaglen Lywodraethu'n cynnwys y canlynol:

- Archwilio diwygio gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal mewn modd radical.
- Dileu elw preifat o system ofal plant sy'n derbyn gofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd mor agos â phosib at gartref ac yng Nghymru ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

Bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar

- Gofal preswyl i blant gan gynnwys trefniadau arbenigol gyda sefydliadau sy'n creu elw
- Asiantaethau Maethu Annibynnol
- Gwaith cymdeithasol asiantaeth a staffio o fathau eraill

Sefydlwyd bwrdd Dileu Elw cenedlaethol ac mae lleihau effeithiau'r agenda'n cael eu hamlygu yng nghynlluniau cyfalaf a refeniw'r rhanbarth.

8.3 Rhaglen waith

Dan gyfarwyddyd y bwrdd plant, ac yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r asesiad poblogaeth a'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad, mae sawl llif gwaith yn cael eu datblygu:

Prosiectau cyn geni

Prosiectau yn ystod beichiogrwydd i gefnogi rhieni / mamau sydd naill ai'n wybyddus i ofal cymdeithasol sydd wedi cael y plentyn cyntaf neu'r ail wedi'i dynnu oddi wrthynt, neu sydd mewn perygl o gael tynnu'u babis newydd-anedig oddi wrthynt. Mae data rhanbarthol a niferoedd plant sy'n derbyn gofal yn dangos cymaint o angen sydd i roi cefnogaeth yn y maes hwn, oherwydd y nifer cynyddol o fabis sy'n cael eu tynnu ymaith adeg eu geni neu yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fywyd.

Prosiect Llesiant Rhieni

Amlygwyd angen i gefnogi rhieni â therapi trawma i fynd i'r afael â'u hanghenion llesiant eu hunain er mwyn atal y plentyn / ail blentyn rhag cael eu tynnu ymaith. Amlygwyd y cynnig hwn fel angen i gomisiynu darn o waith i amlygu'r lefel o angen, ymchwilio'r sail dystiolaethol o ran arfer gorau, a gwneud argymhellion ynghylch modelau neu ymyraethau addas. Dylid nodi y bydd y prosiect hwn yn ceisio darparu ymyrraeth uniongyrchol neu therapi trawma ar gyfer yr oedolyn. (Cynigir hwn i'w ystyried oherwydd yr adeiladu perthynas hanfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y plentyn, er mwyn osgoi cylch o ACES, yn hytrach nag ystyried y prosiect hwn o gyllideb RIF Oedolion / Pobl Hŷn).

Perthynas rhieni a'u plant

Yr angen i ddatblygu gwell perthynas gynnar, creu dolen a chyswllt rhwng y rhiant a'r plant newydd-anedig, er mwyn gwella llwybr ymennydd niwro-ddatblygiadol y babi, hybu rhianta cadarnhaol ac atal cynnydd mewn angen / esgeuluso ac ati i'r dyfodol.

Cymorth Rhianta Arbenigol Plant ag Anableddau a phlant ag anghenion ychwanegol

Cymorth rheoli ymddygiad i rieni y mae gan eu plant heriau niwroddatblygiadol, awtistiaeth, anableddau, ar ôl diagnosis a chyn cael diagnosis oherwydd amseroedd aros sylweddol o'r adeg atgyfeirio i dderbyn diagnosis clinigol.

Cefnogaeth Lles Emosiynol i blant 8-11 oed

Amlygwyd fel bwlch yn y ddarpariaeth.

Model Hyb Cymorth Cynnar

Mynediad cyffredinol yn seiliedig ar angen a amlygwyd i gael cymorth therapi.

Cefnogaeth Trais Domestig/Cam-drin

Cefnogaeth ymyrrol deuluol ddwys, ar gyfer teuluoedd sy'n dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â heriau ac i aros gyda'i gilydd, gan weithio gyda'r sawl sy'n cam-drin a'r dioddefwr a phlant, gyda chymorth dwys 6 mis.

Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Cynigion ynghylch newid systemig i adeiladu ar fodel ymarfer gofal cymdeithasol, adeiladu set sgiliau'r gweithlu, arbenigedd a gallu i wella modelau presennol o waith cymdeithasol, a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Anghenion llety

Cynigion a oedd yn ceisio cyllid ar gyfer cyfleusterau gofal preswyl presennol, ac ar gyfer datblygu arfer a addysgwyd gan drawma ar draws gofal preswyl plant, a'r angen a amlygwyd am gyfleusterau seibiant.

Ein dull integredig o ateb anghenion gofal a chefnogaeth plant a phobl ifanc:

Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghwm Taf yn byw bywydau diogel, iach a chyflawn a gallant lwyddo i gyflawni'u potensial llawn drwy adeiladu cymunedau gwydn.

Yr egwyddorion cyfun y byddwn ni'n eu hyrwyddo yw:

1. Gweithio'n well mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau lleol i'w helpu i gyflawni eu deilliannau lles personol a meithrin gwytnwch.
2. Gweithio'n gadarnhaol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu sy'n seiliedig ar gryfderau.
3. Dilyn ymagwedd o gydweithio sy'n seiliedig ar le mewn cymunedau a gyda nhw i ddatblygu'r amgylchedd gorau posibl ble gallant ffynnu.
4. Canolbwyntio ein cefnogaeth ddwys ar y plant a'r pobl ifanc hynny sydd angen cymorth i drin â phrofiadau andwyol sylweddol.

9. Ein dull integredig o ateb anghenion gofal a chefnogaeth pobl hŷn

Prif nod datblygu model newydd o wasanaethau integredig yw gwella iechyd, gofal a lles ar draws Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

Ailgynllunio system integredig newydd sy'n lleihau darnio ac sy'n galluogi gwasanaethau i weithredu'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, gan wella canlyniadau ar lefel unigol a phoblogaeth.

Rhoddir sylw clir i ailgynllunio'r system bresennol er mwyn cefnogi gwytnwch yn y gymuned a darparu gwasanaethau ar lefel leol ble bo modd. Symud oddi wrth y modelau aciwt mwy traddodiadol i ganolbwyntio ar y gymuned, gan roi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth galon y broses o gynllunio gwasanaethau.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio ac yn mynd yn fwyfwy cymhlethu, mae angen i ni weithio'n well gyda'n gilydd, osgoi dyblygu a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn ateb y galw cynyddol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein gweledigaeth yn syml:

Gwella bywydau gyda chefnogaeth ddi-dor ar gyfer iechyd, gofal a llesiant.




Darperir gwasanaethau ar lefel leol ble bo'n bosib, gyda thimau aml-ddisgyblaethol yn dod â rhwydweithiau cefnogi sy'n bodoli eisoes at ei gilydd i ddarparu gofal di-dor gwell dan gochl dau lwybr integredig – Ymateb Gofal Brys a Rheoli Iechyd y Boblogaeth.

Llwybr 1: Ymateb Cymunedol Brys


Gwasanaeth a gyfyngir gan amser a ddarperir gan weithwyr proffesiynol o ystod o gefndiroedd i gefnogi atal iechyd pan fo angen gwella neu adfer. Darperir y gefnogaeth hon yn y cartref os yw'n bosib, a bydd yn ceisio atal gweld anghenion yn cynyddu.

Llwybrau Integredig



Hyb Llywio

Mae hwn yn allweddol i gydlynu adnoddau ac ymateb addas, gan gyfeirio unigolion yn effeithiol at wasanaethau sy'n ateb eu hanghenion yn y modd gorau.




Llwybr 2: Rheoli Iechyd y Boblogaeth

Mynediad clwstwr a'r ardal leol i ystod eang o adnoddau er mwyn cefnogi iechyd a llesiant. Helpu i ddylanwadu ar ddadansoddi, cynllunio a darparu i ateb anghenion lleol.

Rhwydweithiau Cymunedol

Strwythurau o gwmpas grwpiau poblogaeth a meddygfeydd teulu. Ffocws ar asedau ac adnoddau lleol i gefnogi anghenion holistig a dad-gynyddu angen:



Gweithlu

Mae'r gweithlu'n allweddol i lwyddiant model integredig. Mae angen cynllunio gweithlu i sicrhau'r gymysgedd a'r niferoedd cywir o weithwyr, gyda'r sgiliau, ymddygiad, cymwyseddau a chyneddfau addas i weithredu gwasanaethau o safon uchel.

Mae ailddyluniad o'r system ar y gweill. Bydd hwnnw'n golygu un weledigaeth ar gyfer y rhanbarth, wedi'i seilio ar ddata perfformiad a strwythur lywodraethu cyffredin.

10. Dementia

Ar gyfer Dementia mae agenda cenedlaethol a maes gwaith penodol o dan y Cynllun Gweithredu Dementia (DAP) a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (y safonau).


Roedd gan y Cynllun Gweithredu Dementia pedair blynedd o hyd (DAP 2018-2022) a gyhoeddwyd yn 2018 gan Lywodraeth Cymru, uchelgeisiau i greu cymdeithas heb stigma; ble mae pobl sy'n byw gyda dementia'n parhau i fyw eu bywyd beunyddiol ymysg y cyhoedd ehangach sy'n deall ac yn gwybod sut i ddarparu cymorth.

Cefnogir y DAP, sy'n cael ei werthuso ar hyn o bryd, gan y safonau a gyhoeddwyd gan Gwelliant Cymru yn 2021 a Chronfa Integreiddio Ranbarthol Penodol i Dementia gwerth £1.7M. Dewiswyd ugain safon ar gyfer gwella ar draws 5 thema o blith dros gant o fesurau posibl fel y rhai pwysicaf ar gyfer effeithio ar newid er budd pobl â dementia a'u gofalwyr. Cânt eu hadnabod fel Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan, a dônt o dan y meysydd ffrwd gwaith canlynol; Ymgysylltu â'r Gymuned, Gwasanaethau Asesu Cof, Cysylltydd Dementia, Siarter Ysbytai a'r Gweithlu a Mesur o fewn CTM.

Darllenwch am
Llwybr Safonau Gofal
Dementia Cymru
Gyfan yma.



Llifau Gwaith yn CTM



Mae gan bob llif gwaith gyfrifoldeb am ddarparu sawl llinyn, ac amlygwyd set o flaenoriaethau i gyd-fynd â'u darpariaeth fel yr amlinellir isod:

Llif Gwaith 1 – Ymgysylltu Cymunedol

Mae LIG1 yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

1a: Cam un: Ymgysylltu cymunedol

1b: Cam dau: cynlluniau cyflenwi lleol

13: Bydd gan bobl sy'n byw gyda dementia fynediad yn ôl y galw i wasanaethau perthnasol (ac wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl) penodol ar ôl derbyn diagnosis, waeth beth fo'u man preswyl (a restrir) e.e. ffisiotherapi, dieteg

14: Bydd pobl sy'n byw gyda dementia'n cael apwyntiad wyneb yn wyneb cyfredol ble darperir adolygiad iechyd corfforol mewn partneriaeth gan ofal cynradd ac eilaidd

18: Bydd pobl sy'n byw â dementia a'u gofalmwyr / teuluoedd yn cael cefnogaeth a chymorth i ymgysylltu ag apwyntiadau

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Cwblhau'r ymarfer gwranddo cymunedol
- Cael cadeirydd newydd ar gyfer y llif gwaith



Llif Gwaith 2 – Gwasanaethau Asesu Cof

Mae LLG2 yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

- 3: Gwasanaethau Asesu Cof (MAS) a Gofal Sylfaenol (Meddyg Teulu) yn mabwysiadu Codau READ i gasglu diagnosis / MCI. Yn cynnwys Cleifion Mewnol
- 4: Bydd gwasanaethau Anabledd Dysgu yn diffinio proses i ddal y boblogaeth gyfan o bobl sy'n byw ag Anabledd Dysgu ac yn benodol Syndrom Down i gynnig gwiriad lles gwybyddol
- 5: Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu canlyniadau set gytûn o asesiadau ac ymyriadau a gwblhawyd wrth gyfeirio at wasanaethau Asesu'r Cof (ble nodir yr angen)
- 6: Gwasanaethau Asesu'r Cof i ddigwydd o fewn 12 wythnos o'r adeg atgyfeirio gan ddarparu ystod o ymyriadau i gefnogi diagnosis. Efallai y bydd angen ystyried llwyfannau digidol ac addasiadau a dulliau eraill
- 7: Bydd pobl yn cael mynediad at gyswllt a all ddarparu cymorth emosiynol drwy gydol y cyfnod asesu a thros y 48 awr gyntaf ar ôl cael diagnosis a sicrhau, ar ôl y cyfnod hwnnw, ei fod yn cael ei gynnig yn ôl yr angen
- 8: Bydd pobl sy'n byw gyda Nam Gwybyddol Ysgafn yn cael cynnig dewis o wasanaethau cyfannol sy'n monitro'u hiechyd corfforol a meddyliol a'u llesiant
- 9: O fewn 12 wythnos i dderbyn diagnosis bydd pobl sy'n byw gyda dementia (ar ôl diagnosis) yn cael cynnig addysg a gwybodaeth am bwysigrwydd gweithgareddau iechyd corfforol i gefnogi a hybu iechyd
- 10: Bydd pobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr a theuluoedd yn cael cynnig dysgu, addysg a hyfforddiant sgiliau.

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Datblygu gweithdy i fapio pa wasanaethau sydd ar gael ar draws yr ardal a gwneud y cysylltiadau
- Creu'r model hyb ar draws y rhanbarth
- Gwasanaethau MAS i'w datblygu ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ddarparu mynediad cyfartal.
- Mwy o sefydlogrwydd wrth ariannu'r trydydd sector yn enwedig fel nad yw grwpiau dementia yn y gymuned yn newid neu'n dod i ben gweld trosiant cyflym.
- Mae angen safoni a gwella cyfathrebu gan gynnwys y defnydd o godau READ, dewisiadau iaith (gan gynnwys defnyddwyr B/byddar).
- Mae cryfhau cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol yn enwedig dyletswydd / derbyn yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyfannol a bod atgyfeirio'n briodol.
- Adolygu a chryfhau trefniadau llywodraethu gwybodaeth rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, yn enwedig o ran caniatâd
- Mae angen gwella'r broses o gasglu data o amgylch MCI

Er mwyn cefnogi hyn o fewn CTM rydym hefyd wedi cynllunio gweithdy MAS i greu'r llwybr gofal a chymorth diagnostig gorau posibl sy'n darparu cynnig cyson ar draws CTM i gyd. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o greu tîm MAS Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd yn arwain at welliannau ansawdd o fewn y strwythur MAS presennol ar draws hen ôl troed Cwm Taf.

Er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn cael ei wneud mewn ffordd gyd-gynhyrchiol, rydym hefyd yn ceisio ymgysylltu â'r rhwydwaith gyd-gynhyrchu i gefnogi'r prosiect hwn fel y gallwn sicrhau fod profiad byw ein dinasyddion o ddementia'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol law yn llaw â'n gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthynol i ieched) i greu'r model MAS gorau posibl ar draws ein rhanbarth.

Llif Gwaith 3 – Cysylltydd Dementia

Mae LLG3 yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

12: Bydd gan bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr cyswllt penodol (cysylltydd) i gynnig cymorth, cyngor a chyfeirio, drwy gydol eu taith o ddiagnosis hyd at ddiwedd oes.

15: Cynigir cymorth o fewn 12 wythnos ar ôl cael diagnosis i ddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gofal diwedd oes

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Rhoi'r rôl cysylltydd ar waith ar draws CTM drwy:
 - Creu disgrifiad swydd a manyleb y person yn seiliedig ar ofynion y gweithgaredd ymgysylltu
 - Mapio a gweld bylchau ar draws CTM i weld a oes swyddi'n bodoli eisoes a allai fodloni'r gofynion hyn gan nodi ble y gellid ad-drefnu rolau a beth fyddai'i angen
 - Amlygu cost a chyllid posibl ar gyfer y rôl os oes angen
 - Creu protocol cyfweld ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr os oes angen
 - Rhoi adborth i'r rhai sydd â phrofiad byw sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgaredd ymgysylltu

Llif Gwaith 4 – Siarter Ysbyty

Mae LLG4 yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

- 11: Bydd Cymru'n mabwysiadu'r Siarter Ysbytai sy'n Gyfeillgar i Ddementia gan adolygu'r gweithredu a'r canlyniadau'n rheolaidd
- 16: Bydd sefydliadau a lleoliadau gofal sy'n darparu gofal dementia dwys, (mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu) yn darparu Mapio Gofal Dementia mewn arfer gyffredin
- 19: Bydd gwasanaethau'n sicrhau, pan fydd yn rhaid i berson sy'n byw gyda dementia newid / symud rhwng unrhyw leoliadau neu wasanaethau, y bydd gofal yn cael ei gydgyssylltu'n briodol i alluogi'r person i ystyried ac addasu i'r amgylchedd newydd.

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Gweithredu cyflwyno VIPS gam wrth gam
- Creu tîm DCM

Rhoddwyd tasg ymateb y byrddau iechyd i'r adroddiad trawsbleidiol ar wasanaethau dementia mewn ysbytai i'r llif gwaith hwn hefyd. ac mae gweithredu argymhellion o'r darn hwn o waith hefyd yn rhan o'i gylch gwaith.

Llif Gwaith 5a – Gweithlu a Dysgu

Mae LLG5a yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

- 17: Bydd pob aelod o staff sy'n darparu gofal ar bob lefel ymhob disgyblaeth a lleoliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu a ganolir ar y person, gan gael cefnogaeth i weithredu hynny i'w harferion beunyddiol.

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Gwella ymgysylltu a chyd-gynhyrchu trwy ddigwyddiadau hac-a-thon / cynhadledd Dysgu a datblygu
- Creu cynllun dysgu a datblygu'r gweithlu



Llif Gwaith 5b – Mesuriadau

Mae LIG5b yn gyfrifol am ddarparu'r safonau canlynol:

20: Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y rhanbarth yn darparu yn erbyn gofynion yr eitemau data a gytunwyd (llyfr gwaith mesur (llawlyfr)) ar gyfer adrodd a gwarantu

Mae'r llif gwaith wedi amlygu'r blaenoriaethau canlynol:

- Symleiddio'r data MAS i sicrhau cysondeb
- Creu system i gofnodi niferoedd cleifion â dementia er mwyn cydymffurfio â'r archwiliad cenedlaethol (mewn lleoliadau cleifion a mannau eraill)
- Cefnogi pob llif gwaith arall gyda'u gofynion data.

Mae pob llif gwaith dementia'n cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol y rhanbarth ar gyfer gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn a Dementia, ac maen nhw'n gweithio tuag at gael cynllun dementia 3 blynedd sy'n canolbwyntio yn y pen draw ar:

- Cydymffurfio â'r DAP a gweithredu'r 20 safon gyntaf
- Ailgyflunio gwasanaethau lle bo angen i sicrhau cysondeb rhanbarthol.
- Gweithredu dull cyd-gynhyrchu ar draws y rhanbarth ar gyfer dementia

11. Cronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF)

Mae'r Gronfa Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol (RIF) yn gronfa newydd bum mlynedd a fydd yn helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

11.1 Beth yw nod y RIF?


Bydd y RIF yn helpu sefydliadau sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant i wneud y pethau canlynol:

- Canolbwyntio ar atal a thaclo heriau'n gynnar
- Cydweithio i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 'cydgysylltiedig'
- Rhannu profiadau a dysgu ar y cyd drwy grwpiau penodol o'r enw 'cymunedau ymarfer'
- Dod â staff o wahanol sefydliadau at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau

11.2 Pa wasanaethau fydd y RIF yn eu cefnogi?

Bydd angen i'r modelau gofal hyn ddiwallu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a lles ein preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- pobl ag anableddau dysgu
- gofalwyr di-dâl
- pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- pobl sy'n byw gyda dementia
- pobl hŷn
- plant a phobl ifanc
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl
- pobl ag anableddau corfforol a namau ar y synhwyr



11.3 Beth yw'r modelau gofal?

Mae'r chwe model gofal y bydd RIF yn eu cefnogi fel a ganlyn:



Gofal a leolir yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol

Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymunedol sy'n helpu i warchod preswylwyr rhag problemau iechyd neu lesiant mwy hirdymor, gan gynnwys grwpiau cyfeillio, hybiau cymunedol, atal codwm, a mynediad i wasanaethau llesiant.



Gofal a leolir yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref

Bydd hyn yn helpu i wella adferiad ar ôl cyfnod o afiechyd, gan helpu pobl i fod yn fwy annibynnol yn y tymor hir. Gallai cefnogaeth gynnwys cymorth yn y cartref gan dimau arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned, ac adfer cymunedol.



Hybu iechyd a llesiant emosiynol da

Mae gwella iechyd meddwl a llesiant yn ein cymunedau'n flaenoriaeth. Bydd hyn yn helpu i greu a gwella gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd emosiynol a llesiant.



Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd wedi profi gofal

Bydd partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn cydweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd ac atal yr angen i weld plant yn gorfod derbyn gofal.



Gwasanaethau adref o'r ysbyty

Bydd angen triniaeth mewn amgylchedd ysbyty ar rai pobl bob amser, felly bydd hyn yn helpu i ryddhau pobl iddynt wella gartref yn ddiogel a sydyn. Mae hefyd yn sicrhau fod pobl sydd angen gofal aciwt yn gallu cael mynediad iddo'n hawdd.



Atebion ar sail llety

Mae'n hanfodol fod gan bobl amgylchedd byw cynnes, diogel a chefnogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleusterau byw'n annibynnol, trefnu addasiadau i gartrefi ac adeiladu llety i blant ag anghenion cymhleth.

12. Cyllido Cyfalaf

Cyllid Cyfalaf Tai â Gofal (HCF)

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £60m o gyllid cenedlaethol i mewn i Gyllid Cyfalaf Tai â Gofal (HCF). Y dyraniad cyfalaf ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yw £8.729m y flwyddyn (dyraniad 2025/26 i'w gadarnhau).

Gellir rhannu Buddsoddiad Cyfalaf yn dri phrif nod blaenoriaeth:

Nod 1

Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth ddal tenantiaeth

- Mwy o dai gofal (15-60 uned) i bobl hŷn ag anghenion gofal
- Llety byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu, neu oedolion â salwch meddwl neu bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Nod 2

Dim tenantiaeth

- Llety preswyl ar raddfa fechan (4-6 uned) ar gyfer plant a phobl ifanc
- Llety tymor byr / canolig ar gyfer oedolion ag anghenion uwch a / neu heriau ymddygiad
- Lleoliadau gofal dros dro e.e. camu i fyni / i lawr, fflatiau ailalluogi / adferiad, hyfforddiant, seibiant i ofalwyr / pobl sy'n derbyn gofal.

Nod 3

Prosiectau ar raddfa fechan

- Atgyweirio, adnewyddu tai presennol gyda lleoliadau gofal / gofal dros dro, offer, addasiadau i dai presennol, ychwanegu at Grantiau Cyfleusterau Anabledd uwchlaw £36,000, prosiectau eraill ar raddfa fechan, gan gynnwys cymhorthion digidol a thechnolegau cymorth.



Mae bwrdd cyfalaf rhanbarthol yn cynghori ac yn rhoi cyfeiriad strategol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch buddsoddi cyllid cyfalaf rhanbarthol mewn prosiectau a chynlluniau cyfalaf a amlygwyd, sy'n cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn erbyn y grŵp cleient targed o bobl hŷn, y rheini â dementia, pobl ag anawsterau dysgu, a chyflyrau niwroddatblygiadol, plant ag anghenion cymhleth a gofawyr.

Yn benodol:

Datblygu Strategaeth Fuddsoddi Cyfalaf 5-10 mlynedd

Datblygu Strategaeth Fuddsoddi Cyfalaf ranbarthol, sy'n trosi'n gynllun cyfalaf rhanbarthol 5-10 mlynedd ar gyfer buddsoddi ar draws Cwm Taf Morgannwg, gan ddefnyddio data a amlygwyd drwy asesiad anghenion y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar anghenion llety ac atebion (gwelyau). Nodi prosiectau blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddiadau ariannu Tai â Gofal (HCF) ac Integreiddio ac Ail-gydbwyso Gofal (ICRF) sy'n hyrwyddo: rhyddhau o'r ysbyty, cyfleusterau cam-i-lawr, byw'n annibynnol, byw â chymorth, dileu agenda elw, datblygu cyfleusterau a modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Gallwch ddarllen y strategaeth [yma](#).

Rheoli Tai gyda Chyllid Gofal a chyllid Integreiddio ac Ail-gydbwyso Gofal

Adolygu ceisiadau cyllid cyfalaf priodol sy'n ceisio cyllid rhanbarthol, yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. A rheoli cronfeydd HCF yn flynyddol, rheoli unrhyw lithriad a amlygwyd a chefnogi datblygu Achosion Busnes i fuddsoddi cyllid ICRF mewn cynlluniau rhanbarthol.

Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth CTM, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, ysgogwyr polisi cenedlaethol a gwybodaeth leol wedi awgrymu meysydd posibl cynnar ar gyfer datblygu cyfalaf:

- Rhaglen Gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn
- Llety Cam i Lawr / Camu i Fyny / D2RA – cynlluniau rhyddhau o'r ysbyty
- Llety â chymorth i bobl ag Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
- Ailgyflunio'r cartref gofal presennol, cynyddu capasiti a mwy o lety nyrsio arbenigol i bobl hŷn
- Datblygiad Cymunedol Maesteg
- Gofal sylfaenol / mannau iechyd a lles / ehangu Hyb Cymunedol
- Gofal Cartref Nyrsio – Dementia
- Canolbwynt mordwyo
- 'Dileu Elw' Gofal Preswyl Plant



Unioni strategaeth gyfalaf â chwe model gofal RIF:

Mae Dylunio a Llywodraethu Bwriadol yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cefnogi'r RPB i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol.

Gofal A Leolir yn y Gymuned – Atal a Chydlynu Cymunedol



Thema:

Modelau Darpariaeth Integredig ar y Cyd neu Hybiau (IRCF)

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- Datblygiad Cymunedol Maesteg
- Gofal cynradd / Lleoedd Iechyd a Llesiant / Ymestyn Hybiau Cymunedol

Adref o'r Ysbyty



Thema:

Pobl Hŷn – Rhyddhau o'r ysbyty

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- Llety Camu i Lawr / Camu i fyny / D2RA
- Hybiau Llywio

Gofal A Leolir yn y Gymuned – Gofal Cymhleth yn Nes at Gartref



Thema:

Pobl ag Anawsterau Dysgu / Iechyd Meddwl

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Llety Iechyd Meddwl a gefnogir



Thema:

Pobl Hŷn – Gofal Arbenigol / Arall

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- Ail-alinio capasiti cartrefi gofal presennol
- Gofal Cartrefi Nyrsio – Dementia

Atebion ar Sail Llety



Thema:

Pobl Hŷn – Hybu Byw'n Annibynnol

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- Mwy o Gyfleusterau Cartrefi Gofal



Thema:

Sy'n Derbyn Gofal / ag Anghenion Cymhleth

Datblygiadau Cyfalaf sy'n Dod i'r Amlwg:

- 'Dileu Elw' Llety Preswyl i Blant


13. Tirwedd Polisi Llywodraeth Cymru


Cymru Iachach

Canolbwyntiodd Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018) ar gryfhau gwasanaethau gofal cymunedol ac amlinellodd gynllun ar gyfer gweledigaeth hirdymor i'r dyfodol o 'ddull system gyfan' o drin iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar iechyd a lles ac atal salwch. Cefnogir y weledigaeth gan y Nod Pedwarplyg a amlinellir yn y diagram isod.

Mae uchelgais Cymru Iachach yn dal yn amlwg mewn tair rhaglen genedlaethol fawr:

- Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Y Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng,
- Cronfa Integreiddio Rhanbarthol / Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler uchod)





Mae'r ddogfen 'Ymhellach, yn Gynt' – Ein Cenhadaeth i Adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig i Gymru' yn ceisio cyflymu gweithgarwch gwasanaethau cymunedol integredig a chynlluniau ar y cyd i ddatblygu a sefydlu model gwasanaeth gofal cymunedol a gweithlu fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ein system cyn gaeaf 2023/24.

Mae sefydlu model gofal cymunedol cynhwysfawr yn sicrhau bod ystod lawn o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gael yn lleol. Bydd hyn yn cynnwys strwythurau cyflawni newydd, symud y gweithlu a chreu rolau newydd fel bod gwasanaethau ymatebwyr cyntaf cymunedol, er enghraifft, mwy o weithwyr therapi ac ailalluogi, gwell rolau gofal cartref, nyrsys cymunedol a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn flaenoriaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau a'r gweithlu. Gan adeiladu ar fodelau llwyddiannus, bydd manylebau gwasanaeth yn cael eu datblygu'n genedlaethol er mwyn gallu meincnodi a modelu darpariaeth ranbarthol arnynt.

Felly mae gan yr RPB rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r agenda Ymhellach yn Gynt. Wrth ystwytho'r strwythurau llywodraethu presennol ac unioni cynllunio a chyflawni, gwelir cyfle i gyflawni gweledigaeth gytûn ar gyfer integreiddio er budd y rhanbarth a chyflawni'r uchelgeisiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

13.1 Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng

Mae'r chwe nod, a gyd-gynlluniwyd gan arweinwyr clinigol a phroffesiynol, yn rhychwantu'r llwybr gofal brys ac argyfwng, gan adlewyrchu'r blaenoriaethau a geir yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 i ddarparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel mor agos at y cartref â phosib, a gwella mynediad ac integreiddiad gwasanaethau.

Gweir bod nifer o gysylltiadau a mannau o orgyffwrdd rhwng y rhaglen 6 nod a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), sydd wedi cael eu mapio. Unionwyd 6 nod y bwrdd dan strwythur Llywodraethu'r RPB ac mae sawl maes gwaith yn cael ei gyflawni i gefnogi'r rhaglen lywodraethu.

13.2 Datblygu Clwstwr Carlam

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol achub ar bob cyfle i unioni eu gwaith â chlystyrau. I gefnogi RPBau i wneud hyn, mae'r Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth yn cynnwys un grŵp gorchwyl a gorffen ffurfiol ar gryfhau'r system gynllunio, ac un ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd. Bydd hyn yn llywio fframwaith deddfwriaethol newydd ynghylch RPBau yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).


Mae'n bwysig bod Clystyrau, Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr ac RPBau'n cydweithio'n agos gan sicrhau eu bod yn cynnig mwy o werth yn ei gyfanrwydd na chyfanswm eu rhannau'n unig.

Oni bai bod yr unioni sy'n digwydd rhwng mecanweithiau cynllunio a chyflawni clwstwr, traws-glwstwr a rhanbarthol, wedi'i ddylunio a'i ddisgrifio'n ofalus gallai perygl posib o ddyblygu ymdrech a hyd yn oed densiwn godi rhwng trefniadau partneriaeth.

Yn 2022/2023, lansiodd Gweinidog Iechyd Cymru raglen genedlaethol i gyflymu gwaith clystyrau a chryfhau cysylltiadau rhwng clystyrau a'r Bartneriaeth Ranbarthol.

Yn y model hwn, rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw darparu trosolwg o weithgarwch y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr, gweithgarwch cynllunio a chomisiynu, a rheoli llif gwybodaeth rhwng y clystyrau, y bwrdd iechyd a gofal cymdeithasol. Dangosir y dolenni hyn yn y diagram isod.

Perthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr



Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â gofal yn seiliedig ar le RIF ac mae'n canolbwyntio ar:

- Gofal seiliedig ar le ar ôl troed clwstwr.
- Asedau cymunedol i gefnogi gwytnwch a hunan-ofal.
- Cymunedau cysylltiedig
- Gwasanaethau cysylltiedig
- Gofal sylfaenol sefydlog a chynaliadwy

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys wyth clwstwr – Rhondda; Taf Elai; Merthyr; Gogledd Cynon; De Cynon; Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr; Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd Datblygu Clystyrau Carlam, a sefydlu mentrau cydweithredol proffesiynol, clystyrau aml-broffesiwn a grwpiau cynllunio traws-glwstwr ar lefel strategol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2023/24. Er bod 8 clwstwr, mae'r grwpiau cynllunio traws-glwstwr neu 'Grwpiau Cynllunio Ardal' yn cael eu trefnu i gyd-ffinio ag ôl troed yr ALL. Felly mae yna 3 Grŵp Cynllunio Ardal'.

Am ragor o wybodaeth: [Cynlluniau ac adroddiadau Clwstwr Cwm Taf Morgannwg](#)

Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd SPPC y rhaglen Datblygu Clystyrau Uwch (ACD) a disgrifiwyd uchelgeisiau'r hyn y bydd ACD yn ei gyflawni drwy gyfrwng saith canlyniad yn unol â'r hyn a restrir yn y diagram isod:

ACD – Datblygu Clwstwr ar Fyrder

Nod cyffredinol ACD yw ateb anghenion iechyd clwstwr poblogaeth drwy gyfrwng cynllunio a darparu gwasanaeth effeithiol a gwydn



ACD Canlyniad 1

Gwell cynllunio integredig rhwng clystyrau, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol



ACD Canlyniad 6

Gweithlu a gwasanaethau clwstwr effeithiol, effeithlon, cynaliadwy a hirdymor



ACD Canlyniad 2

Ystod ehangach o wasanaethau'n cael eu darparu ar draws clwstwr, gan ateb blaenoriaethau ac anghenion poblogaeth, yn nes at gartref



ACD Canlyniad 7

Clystyrau a rymuswyd, gyda mwy o annibyniaeth, hyblygrwydd a gweledigaeth



ACD Canlyniad 3

Arweinwyr mwy effeithiol ar draws y system gofal cynradd, systemau cydweithredol a chlystyrau



ACD Canlyniad 4

Mwy o gyfiawnder darpariaeth gwasanaethau gofal clwstwr yn seiliedig ar angen lleol



ACD Canlyniad 5

Darparu gwasanaethau aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth gwell


Beth yw PCPGau?

Bydd Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr yn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau a leolir ar le mewn modd cydweithredol, gan ryddhau clystyrau i ganolbwyntio ar ddarparu gofal o safon uchel.

Beth yw'r cyd-destun strategol sy'n cysylltu PCMW ac ACD at ei gilydd?

Mae Cymru Iachach (AHW; LIC 2018) yn amlinellu gweledigaeth am ddull system gyfan o drin iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch. Mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer cyflawni nod cyfatebol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [WBGF].

Yn unol â Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (LIC 2021), uchelgaïs ACD yw cyflymu gweithredu PCMW i gyfeiriad dod â AHW i fodolaeth drwy wahanu swyddogaethau darparu clystyrau oddi wrth swyddogaethau cynllunio a chomisiynu traws-glwstwr.



Yn y bôn y nod yw cael clystyrau fydd yn llwyfan ar gyfer:

- Cefnogi rheoli iechyd y boblogaeth i leihau anghydraddoldebau
- Galluogi gofal personol i sicrhau bod anghenion gofal ein cleifion yn cael eu diwallu
- Ailgyflunio ein gwasanaethau cymunedol
- Canolbwyntio ar welliant parhaus a lleihau amrywiadau

Gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n cyd-fynd â datblygiad Clwstwr Carlam, yw model cymunedol integredig o iechyd, gofal a lles, sef y prif fodel darparu ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y tu allan i'r ysbyty yn CTMUHB.

Bydd y model integredig yn cael ei adeiladu ar yr egwyddorion canlynol:

- Safonau, canlyniadau, perfformiad a monitro cyson drwy strwythurau integredig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Partneriaethau cryf, cydnerth, cydffiniol trwy gyfrwng Grwpiau Cynllunio Ardal (neu Grwpiau Cynllunio Traws-gwstwr)
- Monitro data a chanlyniadau effeithiol a phriodol, gan roi gwerth ar yr amser a dreulir gartref
- Gweithlu integredig, gwydn a chefnogol.
- Modelu galw a chapasiti priodol sy'n addasu adnoddau yn unol â hynny
- Modelau gweithio hyblyg a gwydn
- Adnoddau gwydn, sy'n adlewyrchu'r newid i fodel cymunedol sy'n seiliedig ar weithlu integredig cryf
- Darpariaeth yn seiliedig ar angen lleol gydag adnoddau cynaliadwy ac effeithiol

Y dull a ddefnyddiwyd yn CTM ym mlwyddyn gyntaf ACD oedd drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu/sesiynau datblygu wedi'u cynllunio i gefnogi'r newid mewn meddylfryd er mwyn symud o ble mae clystyrau nawr tuag at fodel integredig o gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau.

Yn ystod 2022, dechreuwyd rhoi mentrau cydweithredol proffesiynol ar waith. Grwpiau proffesiynol penodol yw'r rhain sy'n cyfarfod yn unol ag ôl troed clwstwr i gynrychioli'r gwasanaeth y gallant ei ddarparu ar gyfer eu cymuned yn seiliedig ar yr anghenion iechyd. I ddechrau, seilir y rhaglenni cydweithredol proffesiynol cyntaf i'w sefydlu ar broffesiynau'r contractwyr ac yna amlygir proffesiynau eraill sy'n seiliedig ar Ofal Sylfaenol yn ystod 2022/2023.

Ffurfiwyd y grŵp cydweithredol meddygon teulu o'r clystyrau gwreiddiol a gefnogir gan Reolwyr Datblygu Clystyrau. Mae fferyllwyr eisoes wedi bod yn gweithio'n effeithiol iawn gyda chlystyrau mewn rôl glinigol a bu hyn o fewn y contract Fferylliaeth ers 2021. Ariannodd Iechyd Llygaid Cymru gynllun peilot Optometreg cydweithredol yn Nhaf Elái yn ystod 2022/23 sydd bellach yn cael ei weld fel enghraifft o Gydweithredu Optometreg ledled Cymru a dyma'r model sy'n cael ei gyflwyno ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

One Positive Change

1. Share your idea with the group.
2. Discuss what change you want to see.
3. Brainstorm ideas and suggestions for actions.
4. Pool your knowledge of contacts and networks.

What would you change?
To be
integrated
within the
row team.

Why? What difference are you hoping to see?

Increases

Who needs to be involved? Who can help?

Can YOU help? please add in any ideas, comments, offers, contacts, etc!


14. Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Cwm Taf Morgannwg yn dod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus blaenorol yng Nghwm Taf, sy'n cwmpasu Merthyr Tudful a RCT, a Phen-y-bont ar Ogwr, ynghyd i ffurfio un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r bwrdd newydd yn cynnwys cyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau'n lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy osod amcanion a fydd yn cyflawni'r Nodau Llesiant amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015.

Mae'r Asesiad Llesiant yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Llesiant hwn; defnyddiwyd y data a'r wybodaeth a gasglwyd law yn llaw â'r hyn y dywedodd cymunedau a phobl leol wrthym am fywyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf.

Thema gyffredinol y Cynllun Llesiant yw 'Cwm Taf Morgannwg Fwy Cyfartal' ac mae hynny'n llywio pob agwedd ar waith y PSB. Darllenwch y cynllun [yma](#).



15. Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig

Roedd y rhaglen lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu canolfannau a hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Sicrhawyd bod cyllid ar gael i hwyluso datblygiad darpariaeth ddi-dor, integredig o wasanaethau trwy gyfrwng hybiau iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'r newid mewn systemau, prosesau a diwylliannau, a bydd ymddygiad yn sicrhau bod hybiau'n fwy nag adeiladau sy'n cynnwys gwasanaethau a gydleolwyd.

Mae diffiniad cytûn o hyb yn cael ei ddatblygu drwy Gymuned Ymarfer genedlaethol, pum lefel eang o hyb, fel y nodir yn y tabl isod.

Gan adeiladu ar gyfalaf sy'n bodoli eisoes a datblygiadau integredig, datblygir a gweithredir rhaglen hyb rhanbarthol.

Hyb llesiant cymunedol	Hyb iechyd a llesiant cyffredinol	Hyb iechyd a llesiant grŵp poblogaeth penodol	Canolfan iechyd a gofal	Arall (nid hyb o fewn y rhaglen)
Cynnig cefnogaeth llesiant cyffredinol, cefnogaeth gyda thai a gwaith, gwasanaethau gwrth-dlodi ac ati i gymuned ddaearyddol Yn canolbwyntio ar alluogi mynediad a gwella cyfleusterau cymunedol ymysg poblogaethau bach a / neu wledig Wedi'i ddarparu mewn llety a rennir ac sy'n hygyrch ar sail hyblyg dros nifer o ddyddiau'r wythnos y cytunwyd arnynt Dylai cyfleusterau gael eu cysylltu â'r system iechyd a gofal integredig ehangach er mwyn i bob claf gael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau yn ôl y galw, ond bydd gan y cyfleuster gyfle i gael ei gynnal gan y gymuned leol dan fodel cydweithredol, gyda rhywfaint o gefnogaeth ysgafn gan gyfleusterau mwy Dylai aelodau'r cyhoedd, yn enwedig rai sydd â chyfyngiadau arnynt o ran trafnidiaeth neu symudedd, allu cael mynediad i ystod o adnoddau digidol a gwasanaethau teithiol achlysurol yn y cyfleuster.	Cynnig gwasanaethau llesiant cyffredinol (fel y rhestrir uchod) a gwasanaethau iechyd a llesiant penodol e.e. clinig coesau, cefnogaeth iechyd meddwl, gwasanaethau allgyrraedd iechyd proffesiynol cyfun Gweithredu naill ai bum neu chwe diwrnod yr wythnos gyda dalgylch poblogaeth lai o faint, fe all y cyfleusterau hyn gynnal rhai aelodau o staff clinigol a gwasanaethau amlddisgyblaethol ychwanegol o bryd i'w gilydd. Bydd gwasanaethau llesiant, a weithredir naill ai gan yr All neu'r trydydd sector, ar gael ar y safle Tebygol o gael mynediad i adnoddau llesiant cyhoeddus ac ystafelloedd ymgynghori digidol.	Cynnig gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol, ac nid ar agor i boblogaeth y gymuned ehangach i gyd Fel uchod, ond wedi'i anelu at grŵp penodol yn y boblogaeth, fel plant, pobl ag anableddau dysgu ac ati.	Cyfleusterau mwy o faint gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol sylweddol gan gynnwys meddygfeydd teulu, efallai fel rhan o glystyrau sydyn Hyb ar gyfer gwasanaethau cynradd a chymunedol ar draws lleoliad a dalgylch poblogaeth ehangach Yn ogystal â gwasanaethau cymunedol craidd ac uwch, dylai'r cyfleusterau hyn ddarparu ystod eang o adnoddau cymunedol ac iechyd sefydlog ar sail sylweddol a / neu sesiynol. Ystod eang o gapasiti clinigol, cymunedol a masnachol, gan gynnwys fferyllfa, llwybrau gofal a gwasanaethau cynghori ehangach Hygyrch drwy ystod o lwybrau hunan-gyflwyno ac archebu a dylai gynnwys ystod o adnoddau cymunedol i annog y boblogaeth i ymgysylltu â gwasanaethau gwella iechyd Y cyfleuster yn hygyrch am saith niwrnod yr wythnos, ond dim ond rhai gwasanaethau fyddai ar gael ar sail archebu yn ystod oriau swyddfa craidd	Gan gynnwys mathau cyfunol a rhwydweithiau iechyd a gofal heb adeilad diriaethol

16. Gweithlu

Datblygu'r Gweithlu, Cymru Iachach, Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymhellol a Chynaliadwy

Un o'r pedwar nod pedwarplyg a amlinellir yn y ddogfen, 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol', yw cael gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy sy'n darparu system iechyd a gofal wirioneddol ddi-dor. Mae hyn yn galw am newid sylfaenol yn ein dealltwriaeth o bwy yw'r gweithlu, a sut y cefnogir cyfraniad pob unigolyn. Mae hyn yn galw nid yn unig am 'fwy o barch cydradd' rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ond hefyd am gydnabod a chefnogi'r rôl hanfodol a chwaraeir gan weithlu anffurfiol o ofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr.

Er mwyn cefnogi modelau gofal newydd, rhaid i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gryfhau'r cymorth, yr hyfforddiant, y datblygiad a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar feithrin sgiliau ar draws gyrfa gyfan a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Mae modelau di-dor newydd o iechyd a gofal sy'n dod i'r amlwg, yn gofyn am ddull clir a chydlynol o ddatblygu a chynllunio'r gweithlu cyfan. I ddiwallu'r angen hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) a Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW) i ddatblygu strategaeth gweithlu hirdymor, mewn partneriaeth â'r GIG a Llywodraeth Leol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, a darparwyr addysg. Nod y strategaeth gweithlu yw mynd i'r afael â galwad yr Adolygiad Seneddol am gynllunio gweithlu rhanbarthol ar y cyd.

Mae strategaeth y gweithlu hefyd yn nodi y bydd angen arweinyddiaeth ddeinamig i ysgogi newid, grymuso eraill ac arwain trwy esiampl, yn ogystal â chreu amodau ar gyfer arloesi a gwella parhaus, er mwyn gwella ansawdd a gwerth gwasanaethau.



17. Trefniadau Cyllid a Gydgasglwyd

Fe wnaeth Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 fynnu fod cyrff partneriaeth o fewn pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn sefydlu a chynnal cronfeydd cyllid a gydgasglwyd o ran:

- Gweithredu swyddogaethau llety cartrefi gofal
- Gweithredu swyddogaethau cefnogi teuluoedd

Mae rheoliadau 2015 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017) yn mynnu, yn achos gweld unrhyw un o'r cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, bod yn rhaid iddynt ystyried a yw'n addas sefydlu a chynnal cyllid a gydgasglwyd.

O fewn Pen-y-bont ar Ogwr cafwyd cytundeb Adran 33 sydd wedi'i hen sefydlu, a chytundeb cyfreithiol tebyg yn RCT a MT o ran y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref.

Mae cyllid a gydgasglwyd yn fodd cydnabyddedig o:

- Gyflawni'r ymateb integredig yna
- Y ffordd fwyaf amlwg o ddangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth
- Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'n gryf iawn ddatblygiad cyllid a gydgasglwyd a cheir gofynion a disgwyliadau clir yn y Ddeddf, y Rheoliadau a'r canllawiau.



18. Cynllun Gweithredu (2023-2027)

Rhoddir manylion am ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf isod.

Cafodd y rhain eu llywio, eu dylanwadu a'u ffurfio gan ein cymunedau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau. Er y gall manylion newid ychydig i adlewyrchu newidiadau mewn anghenion, mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu'r camau gweithredu sydd bwysicaf i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Nghwm Taf Morgannwg.

Diweddarir cynnydd yn erbyn y gweithredodd hyn drwy gyfrwng ein gwefan: www.ctmregionalpartnershipboard.co.uk/ourpriorities



1. Oedolion a phobl hŷn – Cyflawniadau a Chanlyniadau

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
1.1 Bydd pobl hŷn a phobl â dementia'n derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosib, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosib ar ôl gorfod mynd i'r ysbyty.	- Gwell parhad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu ar gyfer pobl hŷn. - Gwell dewis ac ymdeimlad o reolaeth o ran sut, ble a phryd y byddant yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau - Gwell mynediad i wybodaeth berthnasol er mwyn i bobl hŷn fod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael cyn i anghenion gynyddu.	- Gweithredu Model Ranbarthol Ddelfrydol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg - Datblygu ymhellach a gweithredu ein dull integredig o ateb anghenion gofal a chefnogaeth pobl hŷn - Datblygu a gweithredu dull rhanbarthol i Atal Codwm - Ymestyn Modelau Aseswr Ymddiriedol - Darparu uchelgais 'Ymhellach yn Gynt' i adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig i Gymru - Cefnogi datblygiadau hyb cymunedol pellach	- Lleihau mynediad heb ei gynllunio i'r ysbyty i bobl dros 65 - Lleihau'r cyfnod a dreulir mewn lleoliad ysbyty aciwt ar ôl mynediad heb ei gynllunio i'r ysbyty i bobl dros 65 - Bydd pobl yn parhau i fod yn fywiog ac annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau
1.2 Bydd pobl hŷn a phobl â dementia'n gallu cyfranogi mewn gwasanaethau, cyfrannu atynt a chael mynediad iddynt yn eu cymunedau	- Gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cymunedau ar draws ein rhanbarth - Datblygu cymunedau cynhwysol a darparu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau - Gwella rhannu gwybodaeth am gynnydd yn nifer y cyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael i bobl hŷn	- Ein uchelgais yw symud gwasanaethau allan o ysbytai i gymunedau, a hoffem weld mwy o wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn sâl drwy ganfod pethau'n gynt, neu'u hatal yn llwyr. bydd hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli'u hiechyd eu hunain, a rheoli salwch hirdymor. - Cefnogi unigolion i barhau'n weithredol fywiog ac annibynnol gan ymgysylltu â phartneriaid yn y sector gwirfoddol. - Parhau i gefnogi rhagnodi cymdeithasol a chefnogaeth llesiant.	Pobl yn parhau i fod yn weithredol fywiog ac annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau
1.3 Bydd gan bobl â dementia a'u teuluoedd fynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd ei angen arnynt	- Gwella ymwybyddiaeth ar draws pob maes perthnasol am arwyddion cynnar dementia - Gwella mynediad i wybodaeth er mwyn o bobl ddeall yn well sut y gallant gefnogi rhywun â dementia - Datblygu llecynnau diogel er mwyn i bobl allu mynychu gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau - Datblygu dull gweithredu 'tîm o gwmpas yr unigolyn' - Tegwch cefnogaeth ar gael ar draws y rhanbarth	- Gweithredu Safonau Llwybrau Gofal Dementia - Parhau i hybu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Dementia - Adolygu cefnogaeth ddementia a gomisiynir.	Mwy gwybodys am y gwasanaethau / gweithgareddau sydd ar gael.

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
1.4 Cefnogir pobl hŷn a phobl â dementia i ymgysylltu â'u cymuned leol a chael ansawdd bywyd ble mae unigrwydd yn cael ei leihau	• Ystyrir pobl hŷn, gan gynnwys gofalwyr, fel rhan werthfawr o'r iechyd a gofal cymdeithasol a dderbynnir • Gwell cysylltedd cymdeithasol ac annog perthynas gadarnhaol rhwng pobl o wahanol oedran • Mwy o gyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol • Gwella mynediad i weithgareddau cymunedol i bobl sy'n colli synhwyrâu, sydd ag anableddau corfforol neu broblemau symudedd • Bydd gan bobl hŷn fynediad i wybodaeth a chyngor am wasanaethau a chyfleoedd	• Cwmpasu pa wasanaethau sydd ar gael ac amlygu bylchau • Cyd-gynhyrchu atebion i ateb anghenion a amlygwyd	• Bydd pobl hŷn yn teimlo'n fwy cysylltiedig yn eu cymunedau • Lleihau unigrwydd ac ynysrwydd • Cynnydd mewn cyfranogi mewn gweithgareddau a chefnogaeth
1.5 Bydd pobl hŷn a phobl â dementia'n mwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach.	• Gwella / cynyddu'r cyfleoedd i wneud addasiadau yn y cartref a fydd yn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi'u hunain yn hirach • Gwell cynhwysiant o fewn i'w cymunedau a theimlo fod ganddynt ymdeimlad o bwrpas • Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a deilwriwyd i anghenion pobl hŷn • Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o broblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant mewn henoed. • Gwell cynhwysiant digidol	• Parhau i fuddsoddi mewn cymhorthion ac addasiadau drwy gyfrwng y rhaglen gyfalaf • Ceisio atebion digidol i gefnogi pobl yn eu cartrefi • Ymgysylltu â phartneriaethau ehangach i ddeall argaeledd gweithgareddau'n well	• Lleihau mynediad heb ei gynllunio i'r ysbyty i bobl dros 65 • Lleihau'r cyfnod a dreulir mewn lleoliad ysbyty aciwt ar ôl mynediad heb ei gynllunio i'r ysbyty i bobl dros 65



2. 2. Anableddau Dysgu – Cyflawniadau a Chanlyniadau


Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
2.1 Isadeiledd trafnidiaeth addas a fydd yn galluogi i bobl gael mynediad i ystod o wasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd cymdeithasol a gwaith, sydd ar gael i bobl heb anabledd	- Gwella'r opsiynau a'r hygyrchedd i deithio'n ddiogel - Cynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth i gael mynediad diogel i ystod o ddewisiadau teithio - Sicrhau fod gwybodaeth yn hygyrch a hawdd ei ddeall i bobl ag anabledd dysgu	- Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant teithio a / neu deithio â chefnogaeth - Cynyddu digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu	- Mwy o bobl ag anabledd dysgu'n gallu teithio'n ddiogel ar draws y rhanbarth - Pobl ag anabledd dysgu'n fwy hyderus i deithio - Mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu i ymgysylltu
2.2 Llety fforddiadwy ac addas sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu i fyw'n annibynnol	- Gwell dealltwriaeth o'r dewisiadau tai i bobl ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth - Gwella'r dewisiadau tai sydd ar gael i bobl ag anabledd dysgu ar draws y rhanbarth - Gwella profiad pobl ag anabledd dysgu yn yr ardaloedd ble maen nhw'n byw - Paratoi pobl ag anabledd dysgu'n well wrth iddynt bontio i fyw'n annibynnol	- Adolygu dewisiadau tai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - Adlewyrchir anghenion pobl ag anabledd dysgu yn y rhaglen gyfalaf ranbarthol - Datblygu eiddo newydd mewn ardaloedd ble mae galw mawr - Gwell hygyrchedd i wasanaethau cymunedol - Adolygu trefniadau pontio presennol ac argymell gwelliannau	- Bydd gan bobl ag anabledd dysgu fwy o ymwybyddiaeth o ddewisiadau llety - Bydd dewisiadau llety'n ateb anghenion a galw pobl ag anabledd dysgu'n well - Addysgir rhaglenni adeiladu o'r newydd gan bobl ag anabledd dysgu - Gwell mynediad i ddarpariaeth yn y gymuned - Lleihau'r gorbryder a deimlir gan bobl ag anabledd dysgu wrth iddynt bontio
2.3 Cynnig seibiant modern, hygyrch ac addas	- Gwell dealltwriaeth o broblemau gyda'r model o ofal seibiant presennol - Gwella'r cynnig seibiant ar draws y rhanbarth - Gwella'r system archebu gofal seibiant er mwyn i bobl ag anabledd dysgu a'u rhieni / gofalwyr gael mynediad iddo a'i ddefnyddio'n hawdd - Gwella cefnogaeth gofal seibiant brys	- Adolygu'r cynnig presennol sydd ar gael ar draws y rhanbarth, gan gynnwys lefelau staffio gofynnol i ddarparu gwasanaethau a foderneiddiwyd - Archwilio opsiynau ar gyfer diweddarau'r system archebu seibiant - Gwella'r wybodaeth a'r gefnogaeth ynghylch dewisiadau gofal seibiant brys - Defnyddio arian newydd seibiannau byr i ateb anghenion gofalwyr ar draws y rhanbarth	- Bydd gan bobl ddewis o gynnig seibiant sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion a'u dymuniadau - Darparu cysur i deuluoedd fod seibiannau digonol ar gael mewn argyfwng - Cyfleoedd ychwanegol am seibiannau byrion ar gael i ofalwyr ar draws y rhanbarth

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
2.4 Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n eu cefnogi drwy gyfnodau pontio allweddol	- Mae amser ac ystyriaeth ddigonol ar gael i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pontio bywyd cyfan - Gwneud yn fawr o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu i archwilio pob dewis posib sydd ar gael iddynt.	Cynyddu hyfforddiant anableddau dysgu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol	- Cynyddu dealltwriaeth a chydymdeimlad staff sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu - Lleihau gorbryder a darparu cyfleoedd i roi barn o ran sut y darperir gwasanaethau
2.5 Cyflogaeth / cyfleoedd am gyflogaeth a gefnogir, sy'n eu galluogi i gyflawni'u potensial cyflogi / gwirfoddoli llawn	Gweithio gyda phartneriaid (e.e. PSB ac ati) i: - Gwella sgiliau pobl ag anabledd dysgu er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt - Gwella dealltwriaeth o effaith gwaith sy'n derbyn tâl ar fudd-daliadau, er mwyn manteision ar gyfleoedd wrth iddynt godi - Darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli i bobl ag anabledd dysgu - Gwella hygyrchedd i wybodaeth a ddeallir yn hawdd fel bod pobl ag anabledd dysgu'n ymwybodol o gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli sydd ar gael iddynt	Sicrhau fod y blaenoriaethau hyn yn addysgu cynlluniau sefydliadau partner: - Adolygu trefniadau presennol er mwyn i sefydliadau gael mynediad i gyllid i wneud addasiadau rhesymol - Archwilio dewisiadau i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau i sicrhau swyddi neu rolau gwirfoddol - Datblygu llwybrau cyflogaeth a gefnogir er mwyn cynyddu mynediad i wirfoddoli, prentisiaethau ac ati - Archwilio dewisiadau i wella hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth a lleoliadau gwaith i bobl ag anableddau dysgu	- Gwella dealltwriaeth o'r anghenion sydd angen eu cael i lenwi'r bylchau mewn cyfleoedd cyflogi - Mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu sicrhau cyflogaeth / rôl wirfoddoli - Gall pobl ag anabledd dysgu gyflawni'u potensial
2.6 Gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a leolir yn y gymuned y gallant eu defnyddio ac sy'n hybu ymgysylltiad â bywyd cymunedol	- Gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cymunedau ar draws ein rhanbarth - Sicrhau fod mynediad amserol ar gael i wasanaethau iechyd arbenigol yn agos at y cartref, yn y modd lleiaf cyfyngus posib - Datblygu cymunedau cynhwysol, gan roi mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gyfranogi'n ddiogel mewn gweithgareddau	- Sicrhau bod gan bawb gyfle digonol i gael mynediad iddynt heb rwystrau cymhlethdod - Adolygu cyfleoedd yn y gymuned yn ystod y dydd - Sicrhau fod hybiau cymunedol yn hygyrch a pherthnasol i bobl ag anabledd dysgu.	- Cymunedau mwy cynhwysol sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gyfranogi'n ddiogel mewn gweithgareddau - Mae pobl ag anabledd dysgu'n teimlo'n rhan o'u cymuned - Llai o stigma a gwahaniaethu

3.3. Iechyd meddwl a llesiant – Cyflawniadau a Chanlyniadau

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
3.1 Bydd pobl sy'n camddefnyddio sylweddau'n cael eu cefnogi drwy'u galluogi a'u hannog i leihau'r niwed y gallent fod yn ei achosi iddyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau.	- Gweithio gyda'r APB i wella integreiddiad y gwasanaethau ar gyfer anhwylderau camddefnyddio sylweddau ar draws y continwwm - Gwellu cydlyniant rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chefnogaeth iechyd meddwl	- Gwellu gwybodaeth pobl ar draws ein cymunedau am broblemau camddefnyddio sylweddau a ble i fynd / cyfeirio os oes angen cymorth a chefnogaeth - Ymgysylltu mewn trafodaethau â phartneriaid perthnasol i wella cydweithio rhwng cefnogaeth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl	- Gwell mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl - Lleihau'r niwed a achosir gan bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl
3.2 Mae gan bobl fynediad i ystod eang o wasanaethau, ble gallant eu defnyddio, i leihau neu liniaru unigrwydd ac ynysrwydd	- Gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n well ar draws ein cymunedau, gyda ffocws ar ymladd unigrwydd ac ynysrwydd - Cynyddu adnoddau mynediad agored o fewn ardaloedd lleol, sydd ar gael i bwy bynnag sydd eu hangen - Cynyddu addysg ac ymwybyddiaeth o gyflyrau penodol a fydd yn gwella cynhwysiant ac yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu	- Cynyddu mynediad i wasanaethau / gweithgareddau cyffredinol / cymunedol - Ymestyn cyrraedd y rhwydwaith gyfeillio ar draws y rhanbarth	- Lleihau nifer y bobl sy'n unig neu wedi'u hynysu - Cynyddu mynediad i wasanaethau cymunedol ar gyfer grwpiau bregus
3.3 Mae gan bobl ar draws y rhanbarth sy'n disgwyl am ddiagnosis ar gyfer cyflwr iechyd meddwl fynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt, er mwyn iddynt allu 'aros yn iach'	- Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u hintegreiddio'n well, i osgoi gweld pobl yn cael eu pasio rhwng gwasanaethau lluosog heb gymorth a chefnogaeth ddigonol - Rhoddir pobl ynghanol y gwaith cynllunio gofal a chefnogaeth, a derbyniant y gwasanaethau perthnasol - Mae hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth allweddol fel bod pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddyn nhw - Gwell cefnogaeth i fynediad, gan gynnwys hunan-gyfeirio a chyfeirio gan feddyg teulu, i gyflymu darpar ddiagnosis a galluogi pobl i ddechrau ar eu triniaeth yn gynt	Ymgysylltu â'r sector wirfoddol i hybu cefnogaeth cyn ac ar ôl cael diagnosis	- Bydd pobl yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw aros am asesiad a / neu ddiagnosis - Bydd pobl yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael iddynt - Bydd gan bobl gyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau am y gefnogaeth y maen nhw'n ei dderbyn - Gwneud y fawr o'r defnydd o wasanaethau cefnogi'r sector wirfoddol / amgen sydd ar gael

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
3.4 Darparu dull system gyfan well ar gyfer darparu cefnogaeth iechyd meddwl ar draws y rhanbarth	• Gwell dealltwriaeth o rychwant presennol ac angen cefnogaeth iechyd meddwl, o'r ataliol i'r arbenigol • Uwchsgilio staff / gweithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth fel y gallant (yn addas) gefnogi pobl i gyflawni iechyd meddwl a llesiant da • Gwell cefnogaeth arbenigol i bobl sy'n cael anawsterau iechyd meddwl • Lleihau'r amseroedd aros i blant a theuluoedd gael diagnosis o anhwylder niwroddatblygiadol	• Gweithio gyda'r bwrdd Gyda'n Gilydd dros lechyd Meddwl i gefnogi'u gwaith cynllunio a darparu	• Gwell ymwybyddiaeth o'r angen am gefnogaeth ar draws y system • Cefnogir teuluoedd wrth iddyn nhw aros am ddiagnosis • Llai o amseroedd aros ar gyfer pob diagnosis niwroddatblygiadol



4. Gofalwyr – Cyflawniadau a Chanlyniadau

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
4.1 Bydd gan ofalwyr di-dâl fynediad i'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i wella'u gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt a bod y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael cefnogaeth yn cael eu diddymu	- Gall gofalwyr a'r bobl sy'n derbyn gofal ganddynt siarad â gwasanaethau a chael apwyntiadau amserol - Gwella dealltwriaeth o rôl ofalu, er mwyn cael cefnogaeth ar gael i ofalwyr cyn derbyn diagnosis, yn yr amgylchedd sydd orau ar eu cyfer nhw - Gwell cydlynu gwasanaethau sy'n cefnogi gofalwyr, gydag anghenion y gofalwyr yn ganolog - Gwell cydnabyddiaeth o ofalwyr fel aelod allweddol o'r tîm gofalu - Moderneiddio'r seibiant a gynigir ar draws y rhanbarth, gan ddarparu mwy o hyblygrwydd - Gwella'r canlyniadau addysgol i bobl ifanc â rôl ofalu - Mwy o gyfleoedd i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal wneud gweithgareddau	- Cynyddu argaeledd cefnogaeth mewn ysbytai i ofalwyr - Sicrhau fod anghenion gofalwyr yn cael eu hamlygu fel rhan o gynllunio rhyddhau o'r ysbyty - Gwella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol ehangach, i gynyddu amlygu pobl a all fod â rôl ofalu - Defnyddio arian seibiannau byrion newydd i ateb anghenion gofalwyr ar draws y rhanbarth - Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr gan gynnwys asesiadau i ofalwyr - Ymgysylltu â gofalwyr i gynllunio gwasanaethau a fyddai'n cefnogi unigrwydd ac ynysrwydd yn uniongyrchol (Gweithio ar y cyd â PSBau) - Gwella gwybodaeth, cyngor ac eiriol – mae angen cefnogaeth o ansawdd da ar ofalwyr i gefnogi'u rôl ofalu, yn enwedig mewn amgylchedd ysgol a gwaith - Gwella asesiadau gofalwyr – nid ydynt yn cael eu defnyddio na'u cynnig yn ddigon aml	- Gofalwyr yn cael eu hamlygu'n gynt a gallant gael mynediad i gefnogaeth addas - Mwy o gyfleoedd am seibiannau byrion ar gael i ofalwyr ar draws y rhanbarth - Bydd gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal yn sylweddoli'r manteision a fwriadwyd sy'n deillio o'r gwasanaethau a dderbyniant.
4.2 Bydd gofalwyr a'r bobl sy'n derbyn gofal ganddynt yn cael cefnogaeth i fwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i gynnal / gwella'u hiechyd corfforol	- Gwarchod hunaniaeth gofalwr fel rhywun yn ei hawl ei hun, gan gynnwys mwy o gefnogaeth i ofalwyr ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. - Gwell gwybodaeth ar gael i ofalwyr er mwyn iddyn nhw gael mwy o wybodaeth am y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael ar draws y rhanbarth - Darparu cefnogaeth ymyrraeth gynnar, gan liniaru'r posiblirwydd o weld gofalwyr yn cyrraedd pwynt argyfwng	- Datblygu'r Bwrdd Gofalwyr - Datblygu dull a strategaeth rhanbarthol i gefnogi gofalwyr	- Gwell amlygiad o ofalwyr - Gwell iechyd meddwl a llesiant ymysg gofalwyr - Gwella'u gallu i ofalu am eu hanwyliaid
4.3 Bydd gan ofalwyr fynediad i weithgareddau cymdeithasol, hamdden, diwylliant a hwyl addas ble bynnag maen nhw'n byw neu waeth beth fo'u hamgylchiadau	- Cynyddu dewis ac argaeledd seibiannau tymor byr sydd ar gael i ofalwyr - Cynyddu estyn cynllun 'Lle Diogel' i gymunedau ar draws y rhanbarth. Darparu lleoedd ble gall gofalwyr fynd i gwrdd a gwneud ffrindiau ag eraill.	Datblygu cynlluniau gwydn ar gyfer defnyddio arian i gyllido seibiannau byrion	Cynyddu cyfleoedd i ofalwyr gael mynediad i weithgareddau yn y gymuned



5. Plant a phobl ifanc – Cyflawniadau a Chanlyniadau

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
5.1 Gwellu argaeledd ac amrywiaeth darpariaeth cartrefi gofal plant i ateb bylchau a amlygwyd o bob cwr o'r rhanbarth.	- Annog darparwyr i gyflwyno ceisiadau am gyllid cyfalaf i gynyddu darpariaeth cartrefi gofal plant - Annog darparwyr i gyflawni agenda dileu elw o'r farchnad lety gofal cymdeithasol	Cefnogi'r agenda Dileu Elw drwy'r rhaglen gyfalaf	Cynyddu digonolrwydd lleoliadau addas i blant a phobl ifanc yn y rhanbarth
5.2 Gwellu'r cynnig ar gyfer pobl ifanc er mwyn iddynt allu cael swyddi ac ennill sgiliau ar ôl addysg ffurfiol	- Sgôp allanol i'r RPB. Ymgysylltu â phartneriaethau ehangach i ddeall cynlluniau rhanbarthol - Gwell dewisiadau a hygyrchedd llwybrau ôl-16 - Bydd gan bobl ifanc gytundebau addas yn eu lle i osgoi cael eu hecsbloetio - Moderneiddio'r trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer derbyn cyngor gyrfaedd	Gweithio gyda phartneriaethau perthnasol i ddeall rhwystrau a'r rhaglenni gwaith sydd ar y gweill	Pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth hirdymor
5.3 Datblygu lle cymunedol ble gall plant a phobl ifanc fynychu a theimlo'n ddiogel	- Gwellu argaeledd a mynediad i wybodaeth allweddol er mwyn i bobl ifanc fod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt - Gwellu trefniadau trafnidiaeth gyhoeddus - Cyd-ddylunio a darparu cynllun llecyn diogel cymunedol ar gyfer pobl ifanc	Gweithio gyda phartneriaethau perthnasol i ddatblygu ardaloedd cymunedol diogel.	Cynyddu hygyrchedd ac argaeledd ar draws y rhanbarth, er mwyn i bobl allu teithio a theimlo'n ddiogel.

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
5.4 Darparu dull system gyfan well ar gyfer darparu cefnogaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth	• Gwell dealltwriaeth o'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael i bobl ifanc, o'r ataliol i'r arbenigol. • Gwella gwybodaeth staff / gweithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth er mwyn iddyn nhw allu cefnogi pobl ifanc (yn addas) i gael iechyd meddwl a llesiant da. • Gwell cefnogaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl • Lleihau'r amseroedd aros i blant a theuluoedd gael diagnosis anhwylder niwroddatblygiadol	• Gweithredu Fframwaith NEST/NYST • Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i gefnogi Llesiant Emosiynol Plant a Phobl Ifanc • Datblygu a gwella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar gan gynnwys unigrwydd ac ynysrwydd	• Gwell iechyd meddwl a llesiant ymysg plant a phobl ifanc • Cynnydd mewn mynediad i gefnogaeth
5.5 Cynyddu argaeledd a hygyrchedd gweithgareddau chwaraeon, hamdden, diwylliant a hwyl i blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth	• Nid o fewn rhychwant yr RPB. Gweithio gyda'r PSB i greu cynnydd.	• Gweithio gyda'r PSB a phartneriaid ehangach i gyflawni	• Cynnydd mewn mynediad i gyfleoedd
5.6 Cefnogaeth ymddygiad i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd	• Teuluoedd i aros gyda'i gilydd. • Llai o bwysau ar wasanaethau statudol	• Gweithredu cynllun RIF Plant a Phobl Ifanc i warantu dull rhanbarthol at gefnogi plant a phobl ifanc • Gwella gwasanaethau sy'n lapio o gwmpas teuluoedd i hybu cadw teuluoedd gyda'i gilydd • Datblygu adnoddau a chefnogaeth gymunedol i atal plant rhag gorfod dod i dderbyn gofal	• Teuluoedd yn cael gwell cefnogaeth i aros gyda'i gilydd

6. Cyflawniadau a Chanlyniadau Awtistiaeth

Blaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd	Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth wnawn ni (gweithredoedd)?	Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud? (effaith)
Gwella mynediad a chefnogaeth	- Gwella diagnosis a chefnogaeth i bobl â chyflyrau niwrolegol - Hybu mynediad i gefnogaeth waeth beth fo'r diagnosis, cyn ac ar ôl cael diagnosis	- Adolygu lle a galw i ddarparu a chynnal cynaliadwyedd gwasanaethau cefnogi addas, i alluogi unigolion ag awtistiaeth - Lleihau niferoedd y bobl sy'n aros am asesiad diagnostig - Adolygu cefnogaeth cyn ac ar ôl cael diagnosis - Gwella gwasanaethau pontio plant i oedolion - Gwneud mwy o ddadansoddi i gynllunio ar gyfer anghenion y boblogaeth sy'n byw yn y rhanbarth - Datblygu Bwrdd Strategol ASD i ehangu rhychwant i gynnwys cyflyrau niwrolegol ehangach.	- Gwell mynediad i gefnogaeth - Lleihad mewn anghenion sy'n cynyddu



Cadwch mewn cyswllt â ni

Ysgrifennwch at:

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
Uned Gomisiynu Ranbarthol
Canolfan Arloesi'r Cymoedd
Abercynon
CF45 4SN

E-bost: hello@ctmregionalpartnershipboard.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.ctmregionalpartnershipboard.co.uk

Dilynwch ni ar X / Twitter: @ctmrpb

